Rheoli magu ceffylau ar gyfer cyplu naturiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r gwaith o fagu ceffylau ar gyfer cyplu naturiol, ac mae'n cynnwys trefnu a goruchwylio cyplu, dewis caseg a march, briffio a rheoli staff a phennu polisi iard.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol priodol yn cael eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis a gweithredu mesurau hylendid a bioddiogelwch priodol a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal
3. rheoli magu ceffylau ar gyfer cyplu naturiol trwy ddewis meirch a/neu gesig yn unol ag ymarfer y diwydiant
4. diffinio a chyfathrebu cyfrifoldebau'r ymdrinwyr a chyfyngiadau awdurdod
5. cael adborth gan ymdrinwyr ar gynnydd cyplu
6. cymryd camau priodol os bydd anawsterau yn ystod cyplu
7. nodi is-ffrwythlondeb mewn cesig a/neu feirch a chymryd camau priodol
8. annog unigolion i wneud awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella gweithdrefnau
9. sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
10. asesu peryglon a rheoli risg i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y dillad a'r offer amddiffynnol personol sydd angen eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
2. pwysigrwydd gweithredu mesurau hylendid a bioddiogelwch priodol a sut y gellir cyflawni'r rhain
3. pwysigrwydd cydymffurfio, achres, gwerth a pherfformiad blaenorol wrth ddewsi stoc magu
4. system atgenhedlol y gaseg a rheolaeth hormonaidd y cylch
5. canfod oestrws a dylanwadu ar y cylch oestrws
6. system atgenhedlol y march, ansawdd semen a goblygiadau gorddefnyddio
7. canfod, atal a thrin clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
8. achosion a thriniaeth is-ffrwythlondeb mewn cesig a meirch
9. dulliau ac amseriad profion beichiogrwydd
10. sut i gynnal lles corfforol a seicolegol y march
11. effeithiau cludo cesig, meirch ac ebolion ar y ffordd, môr a thrwy'r awyr
12. cadw a threfnu cofnodion greoedd
13. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut i reoli'r rhain
14. eich cyfrifoldebau yn unol a deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Rheoli magu ceffylau ar gyfer cyplu naturiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq406 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; magu; rheolaeth |